Prosesu Geiriau Lefel 1 (03946) – Gwanwyn 10

Llwyddodd pob ymgeisydd i gwblhau'r papur arholiad. Roedd y safon yn dda iawn gydag ôl ymgeiswyr yn prawf-ddarllen eu gwaith yn drwyadl a gofalus. Cosbwyd yn bennaf am ambell wall teipio yn unig.

Dogfen 1

Cwblhawyd y ddogfen hon yn dda. Llwyddodd pob ymgeisydd i newid yr ymyl chwith yn gywir ond methodd ambell un ddefnyddio ymylon wedi'u hunioni (4S) ar gyfer y ddogfen gyfan. Llwyddodd pob ymgeisydd i symud y testun i'r man cywir ac i ddefnyddio gofod dwbl yn ôl y cyfarwyddyd. Llwyddodd pob ymgeisydd i fewnleoli'r paragraff yn ôl y cyfarwyddyd ac i roi enw'r ffeil a'r llwybr yn awtomatig yn y troedyn. Methodd ambell ymgeisydd â dileu geiriau oedd wedi eu croesi allan yn y testun a alwyd yn ôl (2.2) ac ni lwyddodd ambell ymgeisydd i gyfri'r geiriau'n gywir (2.3). Gwallau camdeipio a gosbwyd yn bennaf yn y ddogfen hon felly.

Dogfen 2

Cwblhawyd y ddogfen hon yn arbennig o dda. Llwyddodd pob ymgeisydd i ganoli'r pennawd ac i drawsosod y paragraffau. Methodd ambell ymgeisydd ddileu'r geiriau oedd wedi eu croesi allan yn y testun a alwyd yn ôl (2.2). Bu pawb yn llwyddiannus wrth fewnosod y llun a rhoi border i'r dudalen gyfan. Pwysleisiwyd a thanlinellwyd yn ôl y gofyn. Cosbwyd gwallau teipio yn bennaf yn y ddogfen hon hefyd.

Dogfen 3

Llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i gwblhau'r ddogfen hon yn dda. Fe wnaeth pob ymgeisydd newid trefn colofnau'r tabl yn ôl y gofyn. Dewisodd ambell ymgeisydd gyflwyno'r tabl heb linellau, a gadael rhes wag wedi'r penawdau: mae hyn yn dderbyniol pan na ddefnyddir llinellau. Dewisodd ambell ymgeisydd arall linellu'r tabl: mae hyn hefyd yn dderbyniol ond rhaid gadael un llinell wag ar ôl y penawdau. Cosbir ymgeiswyr os byddant yn dewis llinellu'r tabl a gadael rhes wag o 3 cell ar ôl y penawdau (4L). Cosbwyd gwallau teipio, ee, LEOLIAD yn lle LLEOLIAD.

Dogfen 4

Cwblhawyd y ddogfen hon yn dda iawn. Cosbwyd yn bennaf am wallau teipio.